Gwella Cartrefi, Newid Bywydau.

Care & Repair Cymru

# ADRODDIAD EFFAITH 2024-25

Care & Repair Cymru



# EIN GWELEDIGAETH

**Cymru lle mae'r bobl hŷn i gyd yn gallu byw'n annibynnol mewn cartrefi diogel, cynnes a hygyrch.**

## Y Mudiad Gofal a Thrwsio

Mae Gofal a Thrwsio yng Nghymru yn cynnwys Care & Repair Cymru ac 13 o Asiantaethau Gofal a Thrwsio. Yn cynnwys pob cornel o Gymru, mae'r Asiantaethau Gofal a Thrwsio yn darparu ein gwasanaethau wyneb yn wyneb gyda phobl hŷn.

## Care & Repair Cymru (CRC)

Care & Repair Cymru yw llais cenedlaethol y Mudiad Gofal a Thrwsio, sy'n darparu arbenigedd, eiriolaeth ac adnoddau. Ein tair prif nod yw:

**1. Cynrychioli a chefnogi Asiantaethau Gofal a Thrwsio.**

**2. Ceisio cynnydd yn y buddsoddiad i wella tai pobl hŷn.**

**3. Bod yn lladmerydd i anghenion tai pobl hŷn.**



# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| Rhagair y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr | 1 |
| Ein Heffaith yn 2024-25 | 3 |
| Astudiaeth Achos: Stori Christine | 4 |
| Polisi ac Eiriolaeth | 5 |
| Ymchwil Gofal a Thrwsio | 6 |
| Hynach nid Oerach | 7 |
| Ysbyty i Gartref Iachach | 9 |
| Ymdopi'n Well | 11 |
| Adolygiad Ariannol | 13 |
| Ein Tîm Staff | 15 |
| Ein Bwrdd Ymddiriedolwyr | 16 |
| Cydnabyddiaeth | 17 |

# RHAGAIR Y CADEIRYDD A'R PRIF WEITHREDWR

**Rydym yn falch o rannu'r adroddiad blynyddol hwn gyda chi sy'n dangos yr effaith mawr y mae Gofal a Thrwsio wedi ei gael ar draws Cymru yn 2024-25.**

Oherwydd lefelau ystyfnig chwyddiant yn y Deyrnas Unedig, y prisiau uchel o hyd am ynni a'r wasgfa costau byw i'n buddiolwyr, parhaodd y galw am ein gwasanaethau yn fawr iawn yn 2024-25. Roedd ein hallbwn ar tua'r un faint â'r lefel eithriadol o uchel yn y flwyddyn flaenorol.

Pwysleisiodd ein gwaith polisi, materion cyhoeddus ac ymgyrchu y cynnydd yn y galw a'r angen am ein gwasanaethau. Cydnabu Llywodraeth Cymru hyn gyda chynnydd sylweddol, i'w groesawu, i gyllid grant craidd Gofal a Thrwsio ar gyfer 2025-26 o £1.2m, a chynnydd yn y cyllid cyfalaf ar gyfer ein Rhaglen Addasiadau Ymateb Cyflym o £1.5m. Yn ystod 2023-24 fe wnaethom ddadlau'n llwyddiannus dros £0.5m yn ychwanegol i'r Rhaglen Ymateb Cyflym i daclo'r galw am y grant hwn ac i atal codymau, galluogi byw'n annibynnol gartref a chefnogi rhyddhau'n gyflymach o'r ysbyty.

## Uchafbwyntiau 2024-25: Prosiectau a Phartneriaethau Newydd

Mewn blwyddyn gynhyrchiol a llwyddiannus, yr uchafbwyntiau allweddol yw:

- Lansio ein prosiect tlodi tanwydd dwy flynedd newydd, Hynach nid Oerach, trwy dendr llwyddiannus am £1.3m i gronfa VCMA Wales & West Utilities.
- Partneriaeth a phrosiect newydd gyda National Energy Action (NEA). Mae Cartrefi Cynnes Dyfodol Iachach yn cael ei gyflwyno gan Asiantaethau Gofal a Thrwsio Pen-y-bont ar Ogwr a Chonwy a Sir Ddinbych. Mae'r prosiect yn rhoi cefnogaeth i fuddiolwyr mewn tlodi tanwydd trwy atgyfeiriadau gan weithwyr iechyd proffesiynol.
- Ehangu ein cronfa galedi gan y Loteri Genedlaethol o £50,000 ychwanegol.
- Dros £560,000 gan bum Bwrdd Iechyd i'n galluogi i barhau ein gwasanaeth Ysbyty i Gartref Iachach allan o 17 ysbyty a nifer o ysbytai cymunedol ar draws Cymru. Yn 2024-25 fe wnaethom gyflwyno tendr llwyddiannus am y gwasanaeth hwn am y tair blynedd nesaf ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a dechrau'r broses ar gyfer proses dendr debyg ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.
- Digwyddiad 45 mlwyddiant yn y Senedd, y daeth nifer o ASau iddo, i ddangos a dathlu gwaith Gofal a Thrwsio yng Nghymru am dros bedwar degawd.
- Lansio ein Cynllun Strategol Pum Mlynedd newydd.
- Wedi cwblhau cam un o'n cronfa ddata genedlaethol newydd i gofnodi a gwerthuso ein gwasanaethau a'n prosiectau.

## Blaenoriaethau Strategol Newydd

Yn niwrnod cynllunio'r Bwrdd yn Hydref 2024, cytunodd ein tîm Gweithredol ac Ymddiriedolwyr ar flaenoriaethau strategol allweddol ar gyfer 2025-26. Sef:

- Datblygu Strategaeth Rhoi Cymynrodd.
- Cynnydd yn y sicrwydd am lywodraethiant ariannol a sefydliadol trwy gyfres o archwiliadau mewnol annibynnol.
- Ffocws parhaus ar ddatblygu ein gwaith ar dlodi tanwydd a datgarboneiddio tai.
- Cynllun ailstrwythuro rheolaeth ac olyniaeth i'n gwneud yn addas i'r diben ar gyfer y dyfodol, yn dilyn ymddeoliad uwch reolwr a fu yn ei swydd ers amser maith.

Yn ariannol, cawsom flwyddyn gref, gyda gwarged o £57,000 i'w ychwanegu at gronfeydd wrth gefn heb gyfyngiad, gan helpu i'n gwneud yn fwy gwydn a'n galluogi i fuddsoddi yn ein blaenoriaethau yn 2025-26 a thu hwnt.

Yn gyffredinol, bu'n flwyddyn foddhaol o ddarparu gwasanaethau i'n cleientiaid, tyfu fel sefydliad, a chyflawni swm sylweddol yn fwy o grantiau ac arian prosiectau ar gyfer y Mudiad Gofal a Thrwsio, i helpu i ddiwallu'r galw cynyddol am ein gwasanaethau.

## Diolch

Fel Cadeirydd a Phrif Weithredwr, hoffem ddweud diolch yn fawr wrth y llu o sefydliadau ac unigolion sydd wedi cyfrannu at ein llwyddiant yn 2024-25. Mae hyn yn cynnwys Asiantaethau Gofal a Thrwsio, Llywodraeth Cymru, Wales & West Utilities, awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd, partneriaid trydydd sector, a'n holl gyllidwyr.

Fe fyddem hefyd yn hoffi talu teyrnged i'r tîm staff ac ymddiriedolwyr gwych yn Care & Repair Cymru am eu gwaith caled a'u hymrwymiad ac am wneud cymaint o wahaniaeth i ansawdd bywyd pobl hŷn ar draws Cymru.



**Chris Jones**
Prif Weithredwr



**Andrew Vye**
Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr





# EIN HEFFAITH YN 2024-25

**64,669**
o wasanaethau unigol wedi eu darparu i gefnogi pobl hŷn

**£21.9m**
o waith trwsio a gwella tai

**65,557**
o orchwylion wedi eu cwblhau

**24,933**
o Addasiadau Ymateb Cyflym wedi eu cwblhau

**92%**
wedi dweud wrthym bod eu hannibyniaeth a'u llesiant wedi gwella

**97%**
wedi dweud wrthym y byddent yn argymell Gofal a Thrwsio i eraill

**£12.56m**
o hawliau budd-daliadau heb eu hawlio wedi eu hawlio i bobl hŷn

**3,316**
o bobl â cholled synhwyraidd, strôc a dementia wedi cael cefnogaeth trwy ein gwasanaeth Ymdopi'n Well

**19,088**
o Wiriadau Cartrefi Iach wedi eu cwblhau

**4,115**
o gleifion wedi eu cefnogi i'w rhyddhau o'r ysbyty gartref yn gyflymach trwy ein gwasanaeth Ysbyty i Gartref Iachach

**1,579**
o aelwydydd wedi eu helpu trwy ein gwasanaeth tlodi tanwydd Hynach nid Oerach

**135**
o bobl wedi eu helpu trwy ein cronfeydd caledi





# ASTUDIAETH ACHOS: STORI CHRISTINE

**Mae Christine, nyrs wedi ymddeol 64 oed o Faesteg, wedi byw yn ei chartref gyda'i gŵr Richard ers 35 mlynedd.**

Ar ôl cael codwm difrifol pan oedd allan yn siopa, dechreuodd Christine deimlo'n anniogel wrth fynd i mewn ac allan o'i chartref. Wrth ddibynnu ar afael mewn waliau a fframiau drysau, roedd arni ofn cael codwm arall.

Gan gofio bod Gofal a Thrwsio wedi cefnogi aelod o'r teulu o'r blaen, cysylltodd Christine â thîm Pen-y-bont ar Ogwr i gael help. Ymwelodd Sian Coleman o Gofal a Thrwsio Pen-y-bont ar Ogwr â'i chartref i ddeall ei hanghenion.

Dywedodd Christine, "Esboniais fy mod angen rheilen. Dyna oedd y peth cyntaf ar ffrynt y tŷ a'r cefn, gan mai dyna oedd y peth gorau i'm codi gan fod arnaf gymaint o ofn syrthio trwy'r amser. Ysgrifennodd Sian asesiad, dywedodd y byddai rhywun yn dod draw, ac fe ddigwyddodd hynny'n eithaf sydyn".

Ar ôl asesiad, gosodwyd rheiliau wrth y drws ffrynt a chefn. Gofynnodd Christine hefyd am risiau wrth y ddwy fynedfa, ac fe'u gosodwyd ar ôl asesiad arall gan y Swyddog Cynnal a Chadw Cartrefi.

Wrth ystyried y newidiadau, dywedodd Christine, "Mae'n anodd credu, i'r ddau ohonom dweud y gwir, faint y mae hyn wedi newid ein bywydau. Nid oeddwn yn ymdopi, roeddwn yn aros i syrthio o hyd cyn i'r rheilen gael ei gosod a'r gris yn arbennig. Mae hynny wedi gwneud cymaint o wahaniaeth i'r ddau ohonom".

Ychydig yn ddiweddarach, roedd gŵr Christine yn cael trafferth gyda'i goes. Dywedodd Christine, "Prin yr oedd yn gallu codi oddi ar y soffa. Mae ganddo arthritis tu ôl i groth ei goes, felly nid yw'n gallu plygu ei goes. Mae gennyf gymaint o ofn ar y grisiau, yn gafael yn y wal ar un ochr, ac mae'n ddyn tal. Roeddwn yn arswydo y byddai'n syrthio trwy'r amser. Ffoniodd Sian a gofyn, 'Oedd popeth yn iawn' ac fe ddwedais fy mod yn meddwl a fyddem ni hefyd yn gallu cael rheilen ar ochr y grisiau".

Llwyddodd Gofal a Thrwsio Pen-y-bont yr Ogwr i anfon rhywun allan i osod y rheilen ychwanegol ar y grisiau ac fe wnaeth y cysylltiad dilynol argraff ar Christine. Dywedodd: "Mae'r cysylltiad dilynol wastad wedi bod yn wych gyda Sian. Mae'n ffonio i ofyn i chi, a wnaeth weithio? A ydych yn hapus ar hynny? Ac oes unrhyw beth arall y gallwn ni ei wneud i'ch helpu? Mae hi wedi bod yn hollol wych".

Mae ymyraethau Gofal a Thrwsio wedi rhoi ymdeimlad newydd o ddiogelwch, annibyniaeth a thawelwch meddwl yn eu cartref eu hunain i Christine a'i gŵr.



# POLISI AC EIRIOLAETH

## Grant Rhwyd Ddiogelwch

**Rydym wedi parhau i eiriol i Lywodraeth Cymru gyflwyno Grant Rhwyd Ddiogelwch ar gyfer tai mewn cyflwr gwael sy'n beryglus.**

Rydym yn parhau i adeiladu ar ein hymgyrch Grant Rhwyd Ddiogelwch, gan gynnwys cynhyrchu adroddiadau yn rhoi tystiolaeth am yr angen, sicrhau sylw ar y cyfryngau, ac ennyn cefnogaeth drawsbleidiol yn y Senedd ac ym Mhwyllgor Tai a Llywodraeth Leol y Senedd.

Fe wnaethom gynhyrchu tudalen ar y we yn rhoi rhagor o wybodaeth lle gall pobl roi eu cefnogaeth i'r cais am Grant Rhwyd Ddiogelwch. Rydym wedi derbyn addewidion o gefnogaeth gan nifer o bobl gan gynnwys aelodau bwrdd yr Asiantaethau Gofal a Thrwsio, gweithwyr awdurdodau lleol, therapyddion galwedigaethol, gweithwyr yn y trydydd sector a gweithwyr iechyd proffesiynol.

Rhowch eich cefnogaeth i'r Grant Rhwyd Ddiogelwch trwy fynd i www.careandrepair.org.uk/cy/safetynet neu sganiwch y cod QR isod.

## Maniffesto Etholiad y Senedd 2026

**Y Grant Rhwyd Ddiogelwch yw sail ein maniffesto Etholiad y Senedd 2026 a gyhoeddwyd yn ddiweddar.**

Mae ein maniffesto yn defnyddio astudiaeth achos cleient Gofal a Thrwsio i ddangos yr angen brys am Grant Rhwyd Ddiogelwch. Mae'n tynnu sylw at effaith tai mewn cyflwr gwael ar ein cleientiaid a'r straen y gellid ei hosgoi y mae tai mewn cyflwr gwael yn ei roi ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Darllenwch ein maniffesto yn www.careandrepair.org.uk/cy/policy neu sganiwch y cod QR isod.



# YMCHWIL GOFAL A THRWSIO

## Cartrefi yn Gollwng a Diffyg Cymorth

**Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn yng ngaeaf 2024 ac mae'n amlygu'r heriau tlodi tanwydd a'r diffyg effeithlonrwydd ynni y mae ein cleientiaid yn eu hwynebu. Gan ddefnyddio sampl o 2,479 o gleientiaid Gofal a Thrwsio ar draws Cymru, fe wnaethom ddadansoddi'r Dystysgrif Perfformiad Ynni i ddeall effeithlonrwydd ynni yr eiddo y mae ein cleientiaid yn byw ynddynt. Dangosodd yr adroddiad hefyd effaith diddymu cynlluniau cymorth fel y Taliad Tanwydd Gaeaf a'r taliadau Costau Byw er gwaethaf y ffaith bod biliau ynni bron yn ddwbl lefel 2019.**

Canfu ein hadroddiad nad oedd gan 3 o bob 5 o'n sampl dystysgrif EPC gyfredol ar gyfer eu heiddo a dim ond 1 o bob 10 o'n sampl oedd ag EPC o C neu uwch. Yn ychwanegol, roedd hanner ein sampl yn y Sector Rhentu Preifat yn byw mewn cartrefi nad oeddynt yn cyrraedd y gofynion EPC sylfaenol yn gyfreithiol i landlordiaid. Mewn sampl o bron i 2,500 o gartrefi dim ond dau ohonynt oedd ag EPC A.

Roedd yr adroddiad hwn yn gwneud argymhellion i weithredu Grant Rhwyd Ddiogelwch ar gyfer tai mewn cyflwr gwael peryglus, cyflwyno diogeliad pris parhaus fel tariff cymdeithasol i aelwydydd incwm isel a bregus ac ehangu cynlluniau cymorth ynni i sicrhau bod y rhai sydd ychydig tu hwnt i'r meini prawf cymhwyster yn cael cymorth.

Mae ein holl adroddiadau ar gael i'w darllen yn www.careandrepair.org.uk/cy/reports neu sganiwch y cod QR isod.

## Diogelwch Cartref: Sut mae Gwella Gwaith Trydan yn Newid Bywydau yng Nghymru

**Mae'r adroddiad ar y cyd hwn gan Care & Repair Cymru ac Electrical Safety First yn dangos yr effaith y gall gwella gwaith trydanol ei gael ar fywydau pobl hŷn ar draws Cymru.**

Mae'r adroddiad yn asesu effaith y Cynllun Grant Gwelliannau Trydanol a roddodd hyd at £1,000 i gleientiaid Gofal a Thrwsio heb fodd i wella cyflwr a diogelwch gwaith trydanol yn eu cartrefi. Roedd hyn yn cynnwys gwaith ailweirio trydanol, cyfnewid cawodydd trydanol a chynheswyr dŵr.

Dangosodd yr adroddiad sut yr oedd y gronfa yn gweithredu fel cymorth argyfwng i'r rhai oedd ag angen brys ac ymdrin â'r hyn sydd wedi bod yn fater cudd yn aml. Gall peryglon trydanol fod yn anodd eu gweld ond maent yn rhan o broblem ehangach am gyflwr tai, cynhesrwydd a hygyrchedd. Hwylusodd y gronfa waith trydanol neu drwsio sy'n galluogi i waith arall fynd yn ei flaen i gefnogi byw'n annibynnol.

Ychwanegodd yr adroddiad at ein cronfa o dystiolaeth i weithredu Grant Rhwyd Ddiogelwch ac fe wnaethom argymhellion pellach gan gynnwys yr angen i ymwreiddio gwaith trydanol yn y Rhaglen Cartrefi Cynnes a rhoi gwiriadau diogelwch trydanol am ddim i bobl hŷn yng Nghymru.

# HYNACH NID OERACH

**Lansiwyd gwasanaeth tlodi tanwydd arbenigol Gofal a Thrwsio, Hynach nid Oerach, ar 1 Ebrill 2024. Yn awr yn ei ail flwyddyn, mae Hynach nid Oerach wedi rhoi cymorth hanfodol i filoedd o bobl hŷn ar draws Cymru.**

Er gwaethaf gaeaf heriol a nifer o newidiadau i bolisïau, gan gynnwys diddymu'r Lwfans Tanwydd Gaeaf ym Medi 2024, rhoddodd ein 12 o Swyddogion Ynni Cartref gymorth i 1,579 o aelwydydd sy'n profi tlodi tanwydd. Yn y flwyddyn ddiwethaf, darparodd Hynach nid Oerach dros 1,300 o ymweliadau cartref i gleientiaid o Gymru ben baladr. Fe wnaethom gadw cleientiaid yn ddiogel trwy ddarparu dros 300 o larymau Carbon Monocsid a sicrhau bod 636 o aelwydydd ar y Gofrestr Blaenoriaeth Gwasanaethau, diolch i'n partneriaeth gyda Wales & West Utilities.

Gweithiodd y prosiect yn glos gydag amrywiaeth o sefydliadau gan gynnwys Cymru Gynnes, Nyth, NEA ac Age Cymru. Trwy'r partneriaethau hyn galluogwyd ni i gysylltu atgyfeiriadau a sicrhau bod y sefydliad cywir yn rhoi'r cymorth cywir ar yr amser cywir. Mae tlodi tanwydd yn broblem drawsadrannol, amlochrog sy'n gofyn am weithio amlasiantaethol cryf, ac mae Hynach nid Oerach wedi chwarae rhan allweddol.

**"Rwy'n ddiolchgar iawn am gymorth y Swyddog Ynni Cartref wrth ddatrys yr offer trydanol a'r bwyler, ac mae'r ffenestr newydd wedi gwneud gwahaniaeth anferth o ran pa mor gyfforddus yr wyf yn teimlo."**

– Cleient Hynach nid Oerach

Fe wnaethom weithio gyda chynlluniau Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Chymru i ddarparu amrywiaeth o fesurau yng nghartrefi cleientiaid, gan ostwng biliau a chynyddu effeithlonrwydd ynni. Sicrhaodd y Swyddogion Ynni Cartref werth bron i £500,000 o fesurau yng nghartrefi pobl, yn amrywio o gamau syml fel tâp atal drafft a ffoil rheiddiaduron hyd at ôl-osod cartrefi cyfan.

Fe wnaethom redeg ymgyrch hysbysebu yng ngaeaf 2024-25, i gynyddu ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth ac annog pobl hŷn i gysylltu os oeddynt yn cael trafferth. Fe wnaethom gyrraedd dros 300,000 o bobl, gan ledaenu'r wybodaeth am y gwasanaeth ymhlith ein cleientiaid a'u cymunedau ac fe wnaethom dderbyn 277 atgyfeiriad yn Ionawr 2025 yn unig. Fe wnaethom hefyd gefnogi tîm polisi Gofal a Thrwsio a chynyddu proffil y prosiect trwy ddarparu profiadau o'r rheng flaen gan ein Swyddogion Ynni Cartref a chleientiaid i fod yn sail i ymatebion i ymgynghoriadau Pwyllgorau'r Senedd, Paneli Cynghori ar Dlodi Tanwydd ac Ofgem. Aeth y profiadau hyn ymlaen i siapio polisi Llywodraeth Cymru ac Ofgem.

Eleni byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid a chyllidwyr i sicrhau cyllid ar gyfer y gwasanaeth Hynach nid Oerach tu hwnt i 2026 a'n galluogi i adeiladu ar ddeilliannau'r prosiect hyd yn hyn.

**Becky Ricketts**
Rheolwr Prosiect, Hynach nid Oerach



**1,579**
o gartrefi wedi cael help

**1,317**
o Wiriadau Cartrefi Iach wedi eu cwblhau

**£490,000**
cyfanswm gwerth y camau a osodwyd

**£724,000**
o gynnydd mewn incwm aelwydydd wedi ei gyflawni

**335**
o atgyfeiriadau at WHP, ECO4 ac ati (cynlluniau mawr gan y Llywodraeth)

**164**
cais am fudd-dal wedi eu gwneud

**53%**
o'n cleientiaid heb gyfradd EPC



# ADRE O'R YSBYTY I GARTREF IACHACH

**Eleni rydym wedi parhau i ddarparu gwasanaeth Ysbyty i Gartref Iachach yn yr 17 safle ysbyty ar draws y pum bwrdd iechyd y mae'r gwasanaeth wedi gweithredu ynddynt ers 2019.**

Ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr fe wnaethom gais llwyddiannus am gontract tair blynedd i ddarparu'r gwasanaeth, gan nodi'r tro cyntaf i'r gwasanaeth dderbyn cyllid aml-flynyddol yn unrhyw le yng Nghymru.

Derbyniodd y gwasanaeth dros 5,700 o atgyfeiriadau yn 2024-25 gan arbed dros 24,000 o ddyddiau mewn gwelyau i GIG Cymru. Mae'r gwasanaeth yn cyflymu llif y cleifion trwy ddatrys problemau yn eu cartrefi sy'n eu hatal rhag cael eu rhyddhau yn ddiogel. Yn ogystal ag arbed dyddiau yng ngwelyau'r GIG, mae gan y gwasanaeth werth ychwanegol i'r GIG trwy leihau'r nifer sy'n cael eu hail-dderbyn, osgoi costau ambiwlans, arbed amser staff clinigol, cefnogi teuluoedd cleifion a galluogi i becynnau gofal symud ymlaen.

Mae Ysbyty i Gartref Iachach yn dal i chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi GIG Cymru trwy sicrhau bod pobl hŷn yn cael eu rhyddhau mewn modd diogel a phrydlon i gartref sydd wedi cael ei addasu i weddu i'w hanghenion ac i sicrhau eu bod yn parhau i wella.

*Faye Patton*

**Faye Patton**
Rheolwr Polisi a Phrosiect



**14**
o Weithwyr Achos Ysbyty i Gartref Iachach

**17**
Ysbyty

**3,061**
o gleifion wedi eu hatgyfeirio at y gwasanaeth

**4,115**
o gleifion wedi cael help

**24,690**
o ddyddiau gwely GIG wedi eu harbed

**3,083**
o Wiriadau Cartrefi Iach wedi eu cwblhau

**484**
o hawliadau budd-dal llwyddiannus wedi eu gwneud

**£2.1m**
o fudd-daliadau lles wedi ei hawlio

**7,192**
o welliannau i gartrefi wedi eu cwblhau

**£1.1m**
o welliannau i gartrefi wedi eu cwblhau



# YMDOPI'N WELL

**Yn 2024–25, cyrhaeddodd a chefnogodd Ymdopi'n Well 3,316 o bobl hŷn ar draws Cymru – y nifer uchaf yn ein naw mlynedd.**

Mae pob ymweliad â chartref yn ymwneud â llawer mwy na help ymarferol; rydym yn rhoi amser i sicrhau bod pob cleient yn cael cynnig gwiriad hawl i fudd-daliadau lles. Eleni, cafodd 445 o gleientiaid gynnydd o £1,943,815 yn ychwanegol y flwyddyn rhyngddynt – mae hynny'n £4,368 y person – gan roi hwb i incwm i'w wario, lleihau straen a gwella ansawdd bywyd.

**3,316** o bobl wedi cael cefnogaeth

**1,424** o gleientiaid â thechnoleg wedi ei osod

**2,825** o Wiriadau Cartrefi Iach wedi eu cwblhau

**1,781** o atgyfeiriadau i sefydliadau eraill

**2,219** o gleientiaid wedi colli synhwyredd

**473** o gleientiaid yn byw â dementia neu'n gwella ar ôl strôc

**£1.097m** o waith wedi ei gwblhau yng nghartrefi pobl

**£91,768** o arian elusengar a gafwyd

**£1.9m** mewn budd-daliadau lles a sicrhawyd i gleientiaid




## Partneriaeth sy'n Newid Bywydau

Un o'r rhesymau pam bod Ymdopi'n Well yn gweithio mor dda yw'r cydweithio unigryw rhwng pump o brif elusennau Cymru – RNIB, RNID, Cymdeithas Alzheimer a'r Gymdeithas Strôc – ochr yn ochr â Care & Repair Cymru. Mae'r dull ar y cyd hwn yn golygu nad dim ond deall anghenion ein cleientiaid y mae ein gweithwyr achos ond maent hefyd yn gwybod yn union sut i'w cysylltu â chefnogaeth arbenigol.

Rydym hefyd yn gweithio law yn llaw ag Arbenigwyr Adsefydlu Golwg (VRS) a Swyddogion Cyswllt Clinig Llygaid (ECLO) i sicrhau bod pob cleient yn cael y gofal cywir ar yr amser cywir. Mae ein partneriaeth gyda'r gwasanaeth Byw'n Well wrth Golli Clyw, sydd yn awr yn cael ei drefnu gan y Ganolfan Golwg a Sain, wedi dyfnhau ein harbenigedd o ran colli clyw ac arwain at weld mwy o systemau dolenni clywed yn cael eu gosod gan Asiantaethau Gofal a Thrwsio, gan helpu cleientiaid i aros yn annibynnol a lleihau'r galw ar wasanaethau statudol.

## Arloesi er mwyn Diogelwch a Hygyrchedd

Diolch i gyllid gan Wales & West Utilities, rydym wedi gallu cyflenwi a gosod larymau Carbon Monocsid a system alw i gleientiaid Byddar a thrwm eu clyw na fyddai'n clywed larwm safonol. Hyd yn hyn, gosodwyd naw system, gyda 12 wedi eu trefnu.

Rydym yn parhau i weithio'n glos gyda Chymdeithas y Byddar Prydain i sicrhau bod ein gwasanaethau yn hygyrch i bobl Fyddar ar draws Cymru pan fydd Iaith Arwyddion Prydain yn iaith gyntaf iddynt. Rydym hefyd yn llunio cysylltiadau cryfach gyda Chyngor y Byddar Cymru a Chymdeithas Frenhinol y Byddar.

Eleni nid yn unig rydym wedi cyrraedd mwy o bobl nag erioed o'r blaen, ond rydym wedi newid bywydau trwy gyfuno gwelliannau ymarferol i'r cartref a thechnoleg gyda chyngor arbenigol sy'n newid bywydau. Mae Ymdopi'n Well yn brawf o'r hyn sy'n bosibl pan fyddwn yn gweithio gyda'n gilydd.

*Stephen Thomas*


**Stephen Thomas**
Cydlynydd Cenedlaethol, Ymdopi'n Well



# ADOLYGIAD ARIANNOL


## Cyfanswm Incwm: £2,787,004

| | |
|---|---|
| Llywodraeth Cymru | 44.4% |
| Cyllid Prosiectau | 25.6% |
| Byrddau Iechyd Lleol | 20.8% |
| Rhoddion ac Anrhegion | 1.7% |
| Cronfeydd Caledi | 1.6% |
| Incwm o Fuddsoddiad | >1% |
| Arall | 4.9% |




## Cronfeydd Caledi Cyfanswm incwm a gwariant Cronfeydd Caledi: £81,982

| | |
|---|---|
| Y Loteri Genedlaethol – Costau Byw | 45% |
| Diogelwch Trydanol | 20% |
| Cronfa Diogelwch Nwy | 18% |
| Cartrefi Diogel a Chynnes | 15% |
| Y Prosiect 360 – Cyn-filwyr | 2% |
| 70+ Cymru | 1% |



## Cyfanswm y Gwariant: £2,713,827

| | |
|---|---|
| Costau Uniongyrchol | 70.1% |
| Costau Staff | 24.2% |
| Costau Swyddfa | 2.1% |
| Llywodraethiant | 1.2% |
| Costau Cefnogi | 1% |
| Hyfforddiant a Recriwtio | >1% |
| Gwariant Codi Arian | >1% |
| Dibrisiant | >1% |





# EIN TÎM STAFF

**Chris Jones,**
Prif Weithredwr

**Claire Clarke,**
Cyfrifydd Ariannol

**Louise Parry,**
Uwch Swyddog Gwasanaethau Corfforaethol

**Kennedy Dosomah,**
Swyddog Cefnogi Asiantaethau a Datblygu

**Stephen Thomas,**
Cydlynydd Cenedlaethol, Ymdopi'n Well

**Faye Patton,**
Pennaeth Polisi a Dealltwriaeth

**Jack Bentley,**
Pennaeth Datblygu Busnes

**Becky Ricketts,**
Rheolwr Prosiect – Hynach nid Oerach

**Adrian Lister,**
Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol

**Robert Green,**
Rheolwr Prosiect Cronfa Ddata

**Hannah Peeler,**
Swyddog Polisi a Chyllido (Tlodi Tanwydd)

**Nia Hockley,**
Swyddog Gwasanaethau Corfforaethol

**David Jones,**
Gweinyddwr Cronfeydd Caledi

**Katherine Evans,**
Swyddog Polisi ac Ymchwil (Ymunodd Medi 2024)

**Lianne Nicholas,**
Swyddog Gweinyddol (Ymunodd Medi 2024)

**Neil Williams** (Gadawodd Mawrth 2025)

**Claire Fitzgerald** (Gadawodd Gorffennaf 2024)

**Aleks Chamczynska** (Gadawodd Gorffennaf 2024)



# EIN BWRDD YMDDIRIEDOLWYR

| | |
|---|---|
| **Andrew Vye** | Cadeirydd (o Fedi 2024) |
| **Elizabeth Warwick** | Is-gadeirydd (o Fedi 2024) |
| **Fay Satherley** | Trysorydd |
| **Gwynne Jones** | Cynrychiolydd Asiantaethau (hyd Fedi 2024) |
| **Karen Athanatos** | |
| **Neil Bradshaw** | |
| **Clare Strowbridge** | |
| **Sally Davies** | |
| **Vikki Hiscocks** | Cynrychiolydd Asiantaeth |
| **Christopher Binding** | Cynrychiolydd Asiantaeth |
| **John Hunt** | (Ymddiswyddo Hydref 2024) |
| **Saz Willey** | Cadeirydd (o Ebrill 2024 hyd Fedi 2024. Ymddiswyddo Medi 2024) |

## Observers:

| | |
|---|---|
| **Jim McKirdle** | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| **Sharon Mainwaring** | Is-lywydd Anrhydeddus |

# CYDNABYDDIAETH

**Rydym yn ddiolchgar iawn i bob un o'n partneriaid, cyllidwyr a'n haelodau masnachol. Mae'r partneriaethau hyn yn ein galluogi i gefnogi niferoedd cynyddol o bobl yng Nghymru ac i eiriol dros fwy o fuddsoddiad mewn tai i bobl hŷn.**

## Partneriaid a Chyllidwyr

Llywodraeth Cymru Welsh Government
Nyth Nest
National Energy Action – NEA – Action for Warm Homes
Warm Wales Cymru Gynnes
Electrical Safety First
Gas Safe Register
Wales&West Utilities
Cronfa Gymunedol Community Fund
WCVA CGGC

## Partneriaid Elusennol

Cymdeithas Strôc | Stroke Association
RNIB Cymru Golwg gwahanol See differently
RNID
Alzheimer's Society Cymru – Unedig Yn Erbyn Dementia – United Against Dementia
Age Cymru
age connects wales.
Age Alliance Wales – Cynghrair Henoed Cymru

## Aelodau Masnachol

Qualia Law
Triton
altro
AKW Life Made Better
keysafe
SOLON
closomat
TACT Trusted Assessing & Care Training



Care & Repair Cymru

**www.careandrepair.org.uk**

enquiries@careandrepair.org.uk

**029 2010 7580**

Care & Repair Cymru is a registered charity **(No. 1163542)**
and a company limited by guarantee **(No. 09574555)**.